TAFLEN GYNGOR

# Buddiannau B-Lines i Awdurdodau Lleol yng Nghymru




White Rock, Swansea © Rose Revera

## Beth yw B-Lines?

Mae B-Lines yn llwybrau 3 km o led, neu'n "briffyrdd peillwyr", wedi'u creu o gerrig sarn o gynefinoedd llawn blodau gwyllt sy'n cyd-gysylltu ardaloedd llawn blodau gwyllt pwysig sy'n bodoli eisoes (e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Chynefinoedd â Blaenoriaeth). Maent wedi'u mapio yn sirol trwy broses o goladu data, dadansoddi cysylltedd a gweithdai gyda rhanddeiliaid lleol. O fewn y B-Lines rydym, ar y cyd â'n partneriaid ac unigolion eraill, yn creu cerrig sarn ychwanegol sy'n llawn blodau gwyllt, yn fawr a bach, er mwyn helpu peillwyr a phryfed eraill i deithio'n ddiogel trwy ein tirweddau.

Mae B-Lines yn fenter bioamrywiaeth ar raddfa tirwedd, a ddatblygwyd ac a fapiwyd gan Buglife ledled y DU mewn partneriaeth â phartneriaethau natur lleol, asiantaethau statudol, awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol (NGOs) a phartneriaid cadwraeth eraill. Mae B-Lines yn creu rhwydwaith trwy'r DU o gynefinoedd llawn blodau gwyllt yn unol â'r ymrwymiadau a wnaethpwyd yn adolygiad



Rhwydwaith B-Lines y DU. Map rhyngweithiol ar buglife.org.uk



Climate Action Northeast, adferiad naturiol trwy leihau torri
© Rachel Richards



Cardwenynen Lwydfrown (*Bombus humilis*), SoDdGA Gweunydd Margam
© Emily Shaw

Lawson 2010 "Making Space for Nature"; sy'n dynodi a chreu cysylltiadau rhwng cynefinoedd llawn blodau gwyllt. Mae B-Lines yn fframwaith ar raddfa tirwedd ble gall pob un ohonom wneud cyfraniad mawr tuag at Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.

## Mae awdurdodau lleol yn rhan allweddol o drosglwyddo B-Lines

**Dyma 6 cam gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi B-Lines a helpu poblogaethau peillwyr lleol:**

1. **Astudio'r map B-Lines** i weld ble maent yn rhedeg trwy eich awdurdod lleol a blaenoriaethu gwaith cyfoethogi a chreu cynefinoedd blodau gwyllt o fewn y rhwydwaith B-Lines ble fo modd.

2. **Sicrhau bod safleoedd bywyd gwyllt a gwarchodfeydd natur lleol** ar y B-Lines yn cael eu rheoli'n dda er mwyn cynnal amodau ffafriol i gynefinoedd a rhywogaethau.

3. **Adolygu rheolaeth isadeiledd gwyrdd** i greu mwy o gynefinoedd naturiol llawn blodau gwyllt sy'n gyfeillgar i beillwyr sydd o werth i fywyd gwyllt yn ogystal â thrigolion lleol.

4. **Creu ardaloedd sy'n gyfoeth o flodau** mewn parciau, ar diroedd ysgolion, cylchfannau, meysydd parcio ayyb.

5. **Annog pobl leol** i reoli gerddi a mannau gwyrdd cymunedol er budd peillwyr a bywyd gwyllt arall yn ogystal â'r gymuned leol.

6. **Creu a mabwysiadu** Strategaeth Peillwyr yn eich awdurdod lleol.

## Sut allwch chi ddefnyddio B-Lines a sut allan nhw eich helpu chi?

Bydd cefnogi a helpu i drosglwyddo B-Lines yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiadau i fioamrywiaeth, tra'n cyfrannu hefyd at drosglwyddo amcanion allweddol a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio. Yn ogystal, bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio gyda dyletswydd adran 6 ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddyletswydd yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus "gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau" wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Mae B-Lines yn darparu fframwaith syml iawn ble gall awdurdodau lleol gyflawni eu goblygiadau; fydd o fudd i'w bywyd gwyllt a'u cymunedau lleol hefyd.

Gall mapiau B-Lines gynorthwyo gyda blaenoriaethu a throsglwyddo Seilwaith Gwyrdd a mentrau bywyd gwyllt eraill, wrth dargedu camau gweithredu ar eich ystadau eich hunain ac mewn gwaith cynllunio datblygu strategol.



Gardd peillwyr © Kate Jones



Gwibiwr Bach (*Thymelicus sylvestris*) © Tanya St. Pierre/Cumbria Wildlife Trust

## Defnyddio'r B-Lines mewn gwaith cynllunio strategol a seilwaith gwyrdd

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio B-Lines fel rhan o'r 'gronfa dystiolaeth' bioamrywiaeth i gefnogi mapio bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd, trwy gynnwys B-Lines yn y gwaith o fapio cysylltedd cynefin a thirwedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod peillwyr yn cael ystyriaeth ddilys mewn egin-Gynlluniau Lleol. Gallant hefyd helpu i yrru creu ac adfer mathau unigol o Gynefinoedd â Blaenoriaeth a chynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth lleol. Mae B-Lines yn ddull syml ond effeithiol tuag at seilwaith gwyrdd, sy'n ddeniadol iawn i gymunedau lleol ac yn hawdd i'w ddeall. Dylai awdurdodau lleol ddynodi synergeddau rhwng B-Lines a mapio seilwaith gwyrdd sy'n bodoli eisoes, ac yna defnyddio negeseuon y B-Lines i hyrwyddo a rhoi mesurau gweithredu ar waith ar lawr gwlad.

## Cefnogi cynllunio lleol

Mae'n bwysig bod cynefin bywyd gwyllt yn cael ei ystyried yn gywir ym mhob penderfyniad cynllunio, yn cynnwys yr effeithiau posibl ar gysylltedd cynefinoedd sy'n llawn blodau gwyllt. Er nad ydynt yn ystyriaeth statudol, gall B-Lines helpu i ddynodi ble mae rhwydweithiau blodau gwyllt pwysig yn bodoli yn y dirwedd. Dylid glynu'n gaeth at y dull grisiog (osgoi, lleihau, lliniaru ac, os daw hi i'r pen, digolledu) bob amser mewn penderfyniadau cynllunio er mwyn helpu i warchod cynefinoedd llawn blodau gwyllt.

Mae B-Lines hefyd yn offeryn defnyddiol i annog datblygwyr i wneud eu mannau gwyrdd yn wirioneddol amlddefnydd ac i drosglwyddo ar gyfer peillwyr, yn hytrach na chreu ardaloedd o laswelltir amwynder traddodiadol sydd â diffyg rhywogaethau. Gall cynefinoedd llawn blodau gwyllt gefnogi creu lleoedd yn lleol a bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol mewn datblygiadau a gynllunnir yn dda.

Yn ogystal, mae'r B-Lines yn fecanwaith delfrydol ar gyfer blaenoriaethu trosglwyddo blodau gwyllt o fewn y B-Lines trwy Enillion Net i Fioamrywiaeth (BNG), gydag enillion net i fioamrywiaeth trwy'r system gynllunio wedi'u mandadu yn Neddf yr Amgylchedd (2021). Mae B-Lines yn dirwedd gysylltiedig a flaenoriaethir, felly dylid eu hystyried yn flaenoriaeth bioamrywiaeth leol.

## Cefnogi gwella rheoli tir

Gall awdurdodau lleol wneud cyfraniad sylweddol trwy roi rhaglenni rheoli cadarnhaol ar waith mewn unrhyw gynefinoedd llawn blodau gwyllt a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol sy'n ffurfio rhan allweddol o'r rhwydweithiau B-Lines. Mae gan lawer o awdurdodau lleol ddaliadau tir sylweddol, sydd â'r potensial i gael eu rheoli'n fwy ymatebol er mwyn bywyd gwyllt. Gall newidiadau bychain i raglenni rheoli, fel lleihau'r nifer o doriadau gwair a chlirio torion a wneir ar ymylon ffyrdd, parciau a mannau amwynder eraill gael effaith mawr iawn ar werth tir i bryfed peillio a bywyd gwyllt arall ac, o'u cyfuno, gallant wneud cyfraniad mawr tuag at gyfoethogi'r amgylchedd ar raddfa tirwedd. Trwy greu mannau gwyrdd naturiol, mwy hygyrch, bydd B-Lines yn cyflwyno natur i fywydau mwy o bobl, gyda buddiannau i les corfforol yn ogystal â meddyliol.

## Arwain amcanion adfer cynefinoedd

Bydd adfer poblogaethau peillwyr o fewn y B-Lines yn dibynnu ar weld nifer fawr o brosiectau adfer a chreu cynefinoedd yn cael eu rhoi ar waith ar hyd a lled y DU. Os bydd awdurdodau lleol yn canolbwyntio eu hamcanion adfer cynefinoedd o fewn rhwydwaith B-Lines, gall buddiannau bioamrywiaeth eu camau gweithredu gael eu cynyddu. Gall B-Lines fod yn ysgogiad defnyddiol i gefnogaeth leol yn ogystal ag ariannu ar gyfer amcanion adfer cynefinoedd.

## Tanio brwdfrydedd ac addysgu eraill i weithredu

Gall adrannau helaeth o'r rhwydwaith B-Lines gael eu datblygu gan unigolion a grwpiau brwdfrydig fydd yn aml yn cymryd camau gweithredu ar ardaloedd bychan o dir. Gall ysgolion, busnesau, cymunedau lleol ac unigolion preifat i gyd helpu i ddatblygu'r cynefinoedd llawn blodau gwyllt sydd eu hangen o fewn B-Lines. Byddem yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio B-Lines i danio brwdfrydedd a gweithio gyda phobl leol er mwyn helpu i warchod ein pryfed peillio a bywyd gwyllt arall.



Medi hadau ar ymyl ffordd Ffwl-y-Mwn, Cyngor Bro Morgannwg © Emily Shaw



Pryf Hofran Rhesog (*Helophilus pendulus*) © Liam Olds



Ffug Bryf Swigod (Oedemeridae) © Lucia Chmurova

## Cefndir polisi

### Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

Lansiwyd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio, Llywodraeth Cymru, yn 2013. Mae'r cynllun yn amlinellu'r weledigaeth strategol, y canlyniadau a'r meysydd gweithredu i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn peillwyr yng Nghymru. Diweddarodd y Tasglu Pryfed Peillio, oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru, y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yn 2018. Mae'r cynllun yn dynodi pedwar prif ganlyniad i gefnogi a gwarchod y llu o bryfed peillio sy'n cyfrannu at gynhyrchu ein bwyd ac amrywiaeth ein hamgylchedd. Mae'n gynllun gweithredu ar y cyd sy'n gofyn i bawb weithio gyda'i gilydd a sicrhau bod anghenion peillwyr yn cael eu trin fel rhan annatod o dir a chynefin. Mae'r cynllun yn galw ar i awdurdodau lleol gymryd yr awenau ar draws nifer o'u dyletswyddau a'u meysydd gwaith, yn cynnwys eu rôl o ran cynllunio'n lleol a hefyd fel rheolwyr mannau amwynder a chyhoeddus, safleoedd tir llwyd, ysgolion, meysydd parcio, ymylon ffyrdd a chylchfannau.

Mae B-Lines yn chwarae rhan werthfawr wrth helpu i ddynodi meysydd craidd i'w targedu ar gyfer adferiad peillwyr. Maent hefyd yn cynnig mecanweithiau darparu hygyrch a phroffil uchel ar gyfer cynefinoedd llawn blodau gwyllt.

### Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016, wedi iddi gael ei datblygu'n dilyn ymgynghoriadau yn 2010. Wedi ei datblygu yn gyfochrog â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n cyfannu ac yn cysylltu gyda'r Ddeddf honno; gyda rheoli cyfoeth naturiol mewn modd cynaliadwy'n rhan sylfaenol o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn gosod yn ei lle broses statudol gyfoes ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cydlynol a chynaliadwy.

### Adran 6 ac Adran 7

Mae adran 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau ar bob awdurdod cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus "gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth" wrth gyflawni eu swyddogaethau yng Nghymru, a thrwy hynny "hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau", cyn belled ag y bo'n gyson gyda gweithrediad cywir y swyddogaethau hynny. Felly, fel awdurdod cyhoeddus, dylai cynghorau wreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu holl gynllunio busnes, polisïau, rhaglenni, prosiectau, a gweithgareddau bob dydd.

Mae Adran 7 y Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006. Mae Adran 7 yn dynodi rhestr o rywogaethau blaenoriaeth a chynefinoedd blaenoriaeth y dylid ei defnyddio fel arweiniad gan lunwyr penderfyniadau fel cyrff cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthol, wrth weithredu eu dyletswydd bioamrywiaeth. Mae'r rhestr hon yn cynnwys nifer o beillwyr, yn cynnwys cacwn, gwenyn unig, gwyfynod, glöynnod byw, a nifer o rywogaethau planhigion eraill sy'n dibynnu ar bryfed peillio.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno cyfle i drosglwyddo uchelgeisiau B-Lines i greu ac adfer cynefinoedd llawn blodau gwyllt, gan wella maint a chysylltedd cynefinoedd er mwyn helpu i wrthdroi'r dirywiad hanesyddol yn ein peillwyr. Gall gwell rheolaeth ac adferiad o gynefinoedd Adran 7 o fewn B-Lines fod o fudd sylweddol i beillwyr, yn cynnwys Rhywogaethau Blaenoriaeth sydd dan fygythiad yn genedlaethol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Wedi ei datblygu yn gyfochrog â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn corffori saith nod llesiant mewn cyfraith, ac mae'n gofyn i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn pum ffordd allweddol. Yn benodol, bydd y nod llesiant Cymru Gydnerth yn helpu gydag amcanion adfer natur yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar gynnal a chyfoethogi "amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid". Mae'r ddeddf yn cydnabod gwasanaethau ecosystem allweddol y mae natur, yn cynnwys pryfed peillio, yn eu darparu, er enghraifft, mae pryfed peillio yn unig yn werth £430m y flwyddyn i amaethyddiaeth yn y DU.



Torri a Chasglu, Partneriaeth Natur Fro gyda Chyngor Tref Y Barri
© Emily Shaw

## Polisi Cynllunio Cymru 11

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) rhifyn 11 (Chwefror 2021) yn amlinellu polisïau cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer Cymru. Fe wnaeth wella'r broses cynllunio flaenorol i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli yn y man cywir. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau penodol at warchod yr amgylchedd naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu darparu ym mharagraff 6.2.5. Mae'r B-Lines a chreu ac adfer blodau gwyllt, yn gyffredinol, yn darparu ystod eang o fuddiannau gwasanaeth ecosystem, nid dim ond trwy adfer peillwyr, ond trwy ddal carbon, cefnogi ysglyfaethwyr plâu amaethyddol a gwella iechyd a llesiant.

Er mwyn delio â Dyletswydd Adran 6 trwy'r system gynllunio, mae PPW 11 yn datgan bod "rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n golygu na ddylai datblygu arwain at golled fawr o gynefinoedd na phoblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo sicrhau manteision net i fioamrywiaeth" (para 6.4.5 ac mae 6.4.21 yn amlinellu'r dull grisiog).

Mae'r PPW yn cyfeirio at bum agwedd cydnerthedd ecosystem ym mharagraff 6.4.9, gan bwysleisio pwysigrwydd "rhwydweithiau cynefin ac ecolegol gweithredol o fewn a rhwng ecosystemau ac ar draws tirweddau; gan adeiladu ar gysylltedd ac ansawdd sy'n bodoli eisoes ac annog creu, adfer a rheoli cynefinoedd yn briodol" yn ogystal ag annog "creu 'cerrig sarn' fydd yn cryfhau gallu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol i addasu i newid, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd".

At hynny, yn adran 6.2.11, mae PPW 11 yn cydnabod bod "rhaid i awdurdodau cynllunio annog rheolaeth briodol o nodweddion y dirwedd sy'n bwysig i fflora a ffawna gwyllt er mwyn ategu a gwella cydlyniant ecolegol rhwydwaith Natura 2000". Mae Adran 6.2.11 yn amlygu hefyd bod "'cerrig sarn' neu 'goridorau bywyd gwyllt', yn hanfodol ar gyfer mudo, gwasgaru neu gyfnewid genetig". Mae B-Lines nid yn unig yn rhwydwaith blaenoriaeth a chysylltiedig sy'n bodoli eisoes, ond bydd ei gysylltiadau gogledd-de a dwyrain-gorllewin yn helpu peillwyr i gyfaddasu i'r dirwedd a'r hinsawdd newidiol.

Mae paragraff 6.2.11 yn dweud bod "datblygu rhwydweithiau o safleoedd statudol ac anstatudol a nodweddion tirwedd sy'n cysylltu un cynefin â'r llall yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at gydnerthedd ecosystemau a chynnal a gwella bioamrywiaeth ac ansawdd yr amgylchedd lleol, yn cynnwys galluogi ymaddasu i newid yn yr hinsawdd".

Mae hyn yn amlygu nid yn unig bwysigrwydd safleoedd gwarchodedig dynodedig sydd o bwys bioamrywiaeth, ond hefyd y coridorau bywyd gwyllt a'r cerrig sarn sy'n darparu cysylltedd tirwedd gwerthfawr – fel y B-Lines sydd wedi'u mapio.

Dywed paragraff 4.1.33 "Dylai awdurdodau cynllunio chwilio am gyfleoedd i wella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd, peidio â darnio cynefinoedd a sicrhau manteision ehangach seilwaith gwyrdd ar hyd y rhwydweithiau trafnidiaeth". Wrth ddatblygu Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, mae PPW 11 yn cydnabod yr angen am "ddull strategol a rhagweithiol mewn perthynas â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth" (para 6.2.6). Mae paragraff 6.2.7 PPW 11 yn datgan y dylai'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd gael ei ddefnyddio "i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu cydnerthedd ecolegol, a gwella canlyniadau llesiant, a dylai nodi cyfleoedd strategol allweddol lle byddai adfer, cynnal, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd yn sicrhau'r manteision mwyaf sylweddol". Mae hyn, yn fwy penodol, yn cynnwys "nodi ffyrdd o leihau neu wyrdroi chwalu cynefinoedd, a gwella cysylltedd cynefinoedd trwy hyrwyddo coridorau bywyd gwyllt a nodi cyfleoedd i adfer tir, rheoli'r dirwedd a chreu cynefinoedd newydd neu well" (para 6.2.10). Gellir defnyddio B-Lines fel offeryn strategol ar gyfer helpu i dargedu sicrhau cynefinoedd blodau gwyllt ar gyfer pryfed peillio i ble y gallant sicrhau'r buddiannau mwyaf, gan gynyddu cysylltedd a chydnerthedd ar draws y dirwedd.

Mae paragraff 6.2.5 yn dweud "trwy gynllunio a dylunio gofalus, gall seilwaith gwyrdd sicrhau bod manteision gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystem yn cael eu rhoi ar waith mewn datblygiadau a lleoedd newydd". Mae'r B-Lines yn darparu ysgogiad pellach ar gyfer creu cynefinoedd blodau gwyllt fel rhan o gynlluniau datblygu ac mae glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt yn darparu cyfleoedd neilltuol i'r cyhoedd gael mynediad i ac i ymgysylltu â natur. Ym mharagraff 4.5.1 nodir yn benodol y bydd "rhwydweithiau o fannau gwyrdd hygyrch a mannau hamdden o ansawdd uchel yn hyrwyddo cadwraeth natur a bioamrywiaeth hefyd ac yn darparu cyfleoedd pleserus i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol."

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru a Phartneriaethau Natur Lleol

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru gyntaf yn 2015 ac mae'n cynnwys Rhan 1 (Ein Strategaeth ar gyfer Natur) a Rhan 2 (Ein Cynllun Gweithredu). Diwygiwyd Rhan 2 yn 2020-21 i ddarparu ffocws a blaenoriaethau ar gyfer cyd-destun polisi prysur newidiol a'r argyfwng ecolegol datblygol. Mae'r NRAP yn cael ei adolygu eto ar hyn o bryd er mwyn ei alinio gyda thargedau a nodau a bennwyd yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn ogystal â diffinio

camau gweithredu sydd eu hangen i drosglwyddo ein targedau statudol domestig arfaethedig fydd yn sicrhau ein bod yn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth tra'n trosglwyddo buddiannau eangach i gymdeithas. Bydd ein Strategaeth ar gyfer Natur 2015 yn aros yn ei lle tan ei bod wedi ei ail-alinio i gyfateb â'r targedau a gadarnhawyd yn COP15.

Mae gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru Bartneriaethau Natur Lleol (LNP), mae 24 LNP ar hyd a lled Cymru yn cynnwys 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio rhwydwaith adfer natur Cymru gyfan.

Mae pob LNP yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (LNRAP), dogfen strategol sydd, wedi'i gosod yng nghyd-destun deddfwriaeth a gyrwyr polisi cenedlaethol a rhanbarthol, yn anelu i roi stop ar ac i wrthdroi tueddiadau bioamrywiaeth negyddol a ddynodir ar draws pob sir. Mae'r LNRAP yn cwmpasu cyfnod o 10-15 mlynedd gan ddarparu arweiniad i gyrff a sefydliadau cyhoeddus, yn ogystal â helpu i yrru gweithredu ar lefel leol mewn cymunedau er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth a sicrhau cyfranogiad cyffredinol mewn gweithgareddau i adfer natur.

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau cryfach (Dyletswydd Adran 6). Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau yng nghyd-destun Cymru a bydd yn helpu i fwyafu cyfraniadau tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cefnogi'r gofyniad cyfreithiol hwn i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth trwy osod natur wrth galon llunio penderfyniadau a chynyddu gwytnwch ecosystemau. Dylai camau gweithredu a gymerir i helpu bioamrywiaeth gael eu harwain gan chwe amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur, sy'n cynnwys gwreiddio bioamrywiaeth yn y broses llunio penderfyniadau ar bob lefel, gan gynyddu gwytnwch yr amgylchedd naturiol trwy greu ac adfer cynefinoedd, a diogelu dyfodol rhywogaethau a chynefinoedd.

Fel rhwydwaith blaenoriaethol a chysylltiedig, gall B-Lines chwarae rhan werthfawr yng nghronfa dystiolaeth LNRAP, gan helpu i ddynodi meysydd craidd i'w blaenoriaethu ar gyfer adferiad peillwyr ac er mwyn adfer poblogaethau cydnerth. Maent hefyd yn cynnig mecanwaith trosglwyddo hygyrch a phroffil uchel ar gyfer cynefinoedd llawn blodau gwyllt.

### Rheoliadau Cadwraeth Cynefinodd a Rhywogaethau 2017

Mae'r rheoliadau'n gofyn i gynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n annog rheoli nodweddion yn y dirwedd "yn rhinwedd eu strwythur llinellol a di-dor (megis afonydd a'u torlannau neu'r systemau traddodiadol o farcio terfynau caeau) neu eu swyddogaeth fel "cerrig sarn" (fel pyllau neu goedwigoedd bychan), sy'n hanfodol ar gyfer mudo, gwasgaru a chyfnewid genetig rhywogaethau gwyllt". Mae'r rheoliadau'n cyflawni Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd (UE) (92/43/EEC) yn y DU. Wedi ymadawiad y DU o'r UE, trosglwyddodd newidiadau yn 2019 i'r rheoliadau Cadwraeth Cynefinodd a Rhywogaethau (2017) y swyddogaethau hyn o'r Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau priodol yng Nghymru.

### Datganiadau Ardal

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu Datganiadau Ardal sy'n cwmpasu saith ardal wahanol o Gymru. Mae pob Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu adnoddau naturiol yn yr ardal benodol honno, yr hyn all pob un ohonom ei wneud i ateb yr heriau hynny, a sut y gallwn reoli ein hadnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Gall trosglwyddiad B-Lines helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol a amlygir ym mhob un o'r saith Datganiad Ardal, yn cynnwys cysylltu ein tirweddau, creu ecosystemau cadarn a chyfoethogi bioamrywiaeth.



Ymyl ffordd © Tanya St. Pierre/Cumbria Wildlife Trust

## Cyfeiriadau


Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (adran 6): canllawiau i awdurdodau cyhoeddus

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Polisi Cynllunio Cymru 11

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinodd a Rhywogaethau 2017

J. Robins ac E. Shaw (2023) Buddiannau B-Lines i awdurdodau lleol yng Nghymru





Mae Buglife - The Invertebrate Conservation Trust yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yn Lloegr yn Allia Future Business Centre, London Road, Peterborough PE2 8AN. Rhif cwmni 4132695. Elusen gofrestredig rhif 1092293. Elusen gofrestredig Yr Alban rhif SC040004.